27 Tachwedd 2023

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Sut mae'r NMC yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau

1 Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi ymrwymo i sicrhau bod ein polisïau a'n dogfennau canllaw yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Os ydych chi'n dymuno derbyn y canllawiau hyn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy equality@nmc-uk.org neu ffoniwch 020 7637 7181.

## Beth yw addasiadau rhesymol?

2 Newidiadau yw addasiadau rhesymol i'r ffordd rydym yn cynnig ein gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gan bobl anabl a rhai sydd â chyflyrau iechyd dros dro neu hirdymor gyfle cyfartal i gael mynediad at ein gwasanaethau.

## Beth mae'r ddogfen hon yn ei wneud?

3 Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein proses addasiadau rhesymol ar gyfer pawb sydd yn ceisio cael mynediad at ein gwasanaethau. Mae'n dweud wrth bobl beth gallant ei ddisgwyl, a sut byddwn ni'n addasu ein prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch a chynhwysol.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

4 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bawb sydd yn dymuno defnyddio ein gwasanaethau. Mae hynny'n

cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): pobl sy’n gwneud atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer (FtP), tystion, pobl sydd yn mynd trwy achosion FtP, a phobl sy’n ymgeisio i gofrestru, ailddilysu a chael eu hailddderbyn neu eu hadfer i’n cofrestr.

**Beth yw anabledd?**

5 Mae’r term ‘anabledd’ yn cwmpasu anableddau dysgu, cyflyrau corfforol a iechyd meddwl sydd yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu’r unigolyn i gyflawni gweithgareddau dydd-i-ddydd. Effaith hirdymor ydy un sydd wedi para, neu y disgwylir iddi bara, am 12 mis neu fwy. Mae Deddf Cydraddoldeb (2010) (‘Y Ddeddf’) yn diogelu pobl sydd ag anabledd, neu sydd wedi bod ag anabledd, i’w hatal rhag cael eu rhoi dan anfantais sylweddol.[1]

6 Ble bo modd, rydym wedi defnyddio’r derminoleg ‘pobl anabl’ o’r model cymdeithasol, sy’n dweud bod pobl yn cael eu hanalluogi gan rwystrau y maent yn eu profi mewn cymdeithas, nid gan eu hamhariad. Mae ein hymagwedd tuag at addasiadau rhesymol

---

[1] Nid yw Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, ond mae gofynion cydraddoldeb tebyg iawn wedi eu gwasgaru ar draws nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth. Er enghraifft, mae Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 hefyd yn cynnwys ystyriaeth o ‘farn wleidyddol’ fel nodwedd warchodedig, mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn dal yn berthnasol i gyflogaeth yng Ngogledd Iwerddon ac mae Gorchymyn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2005 yn berthnasol ym mhob lleoliad addysg.

wedi'i gwreiddio yn ein dealltwriaeth o'r model hwn ac rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n anabl. Mae ein hymagwedd yn rhan o'r ffordd rydym yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n cynnwys ein hymrwymiad i weithio i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal.

7 Rydym wedi ymrwymo i wneud addasiadau ar gyfer y rhai y mae eu hangen arnynt, ac i hyrwyddo arfer da yn hyn o beth. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, bydd adegau hefyd pan fyddwn yn ystyried addasiadau ar gyfer pobl nad ydynt o anghenraid yn anabl neu'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd, ond a allai fod yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio ein gwasanaethau beth bynnag.

8 Bernir bod HIV, sglerosis ymledol a chanser yn anableddau o ddyddiad y diagnosis. Bernir hefyd bod pobl sydd ag anffurfiadau difrifol yn Anabl dan y Ddeddf, yn ogystal â phobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall gyda'u hawdurdod lleol neu gydag offthalmolegydd.

9 Yn ogystal â'r amhariadau hyn, mae diffiniad y Ddeddf o anabledd yn ddigon eang i gwmpasu pobl sydd ag amhariadau clyw, golwg a lleferydd yn ogystal ag amhariadau eraill megis anableddau neu anawsterau dysgu, poen cronig, cyflyrau iechyd meddwl, diabetes, asthma a phroblemau cefn. Gall anabledd fod yn weladwy neu'n anweladwy.

10 Gallai unigolyn sydd ag anabledd dysgu ddod ar draws rhwystrau pan gyflwynir gwybodaeth newydd neu gymhleth iddynt neu pan fyddant yn gweithredu'n annibynnol. Mae rhai cyflyrau, megis

awtistiaeth, yn anableddau datblygu gydol oes sydd yn effeithio ar ganfyddiad pobl o'r byd a'u rhyngweithio ag eraill. Mae'n well gan rai pobl sydd ag anableddau dysgu y term 'anhawster dysgu' er mwyn adlewyrchu'r modd mae eu hanghenion cefnogi dysgu yn newid dros amser.

11 Mae anhawster dysgu hefyd yn derm a ddefnyddir ar gyfer cyflyrau penodol o wahanol fathau megis dyslecsia, dyspracsia ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD).

12 Mae cyflyrau iechyd meddwl yn gategori eang iawn sy'n cynnwys gorbryder, iselder, anhwylder deubegynol a phyliau o banig. Yn benodol, maent yn effeithio'n bennaf ac yn sylweddol ar y ffordd mae unigolyn yn teimlo, yn meddwl, yn ymddwyn, neu'n rhyngweithio ag eraill.

13 Nid ydym yn barnu a yw rhywun yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o anabledd ai peidio wrth gyflawni ein dyletswydd addasiadau rhesymol. Os bydd unigolyn yn dweud wrthym bod ganddynt anabledd, anaf neu gyflwr iechyd hirdymor a'u bod yn wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at ein gwasanaethau, ni fyddwn yn ceisio penderfynu a ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad o anabledd. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar ystyried a fyddai addasiad rhesymol yn dileu'r rhwystr neu'r anfantais y maent yn ei brofi. Rydym yn sylweddoli hefyd y gall fod gan bobl amhariadau ac anghenion dros dro, cyfnewidiol a/neu luosog.

14 Yn yr un modd, ni fyddwn fel rheol yn gofyn am dystiolaeth feddygol o anabledd neu amhariad unigolyn. Byddwn yn canolbwyntio ar ystyried pa

addasiadau fyddai'n ei gwneud yn rhwyddach iddynt ryngweithio â ni yn effeithiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai angen cyngor meddygol annibynnol er mwyn gwneud addasiad oherwydd y byddwn yn derbyn cyngor gan yr unigolyn dan sylw ynglŷn â'u hanghenion. .

## Sut gallwn ni ddarparu 'addasiadau rhesymol'?

15 Byddwn wastad yn ystyried ceisiadau am addasiadau i ddileu neu leihau anfanteision a wynebir cyn belled â phosib, ond dim ond addasiadau y mae'n rhesymol i'r NMC eu gwneud y mae'n ofynnol i ni eu darparu.

16 Byddwn yn ystyried darparu cyfarpar neu gymhorthion eraill sydd yn ei gwneud yn haws i bobl anabl gael mynediad at ein gwasanaethau.

17 Gallai'r canlynol fod ymhlith yr enghreifftiau o ddarparu cyfarpar neu gymhorthion eraill:

17.1 darparu dolen sain i unigolyn sydd yn defnyddio cymorth clyw

17.2 darparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol, megis print bras i unigolyn ag amhariad golwg, dogfen hawdd ei darllen i unigolyn ag anabledd dysgu, papur lliw i unigolyn dyslecsig neu fformat electronig i unigolyn dall

17.3 darparu cadair ergonomig i unigolyn sydd ag amhariad ar y clun neu'r cefn

17.4 darparu dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a chofnodydd nodiadau electronig yn ystod gwrandawiad i unigolyn sydd yn F/fyddar.

18 Byddwn yn ystyried newid unrhyw ddarpariaethau neu arferion sydd yn rhoi pobl anabl dan anfantais.

19 Gallai'r canlynol fod ymhlith yr enghreifftiau o newid darpariaethau neu arferion:

19.1 cynorthwyo unigolyn sydd ag amhariad golwg i wneud atgyfeiriad dros y ffôn yn hytrach nag yn ysgrifenedig

19.2 darparu trawsysgrif neu grynodeb o sgwrs ffôn

19.3 newid amser gwrandawiad FtP er mwyn helpu unigolyn i reoli effeithiau gorbryder

19.4 caniatáu i unigolyn wneud cais ar bapur i gofrestru yn hytrach nag un ar-lein, os yw eu hanabledd yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddefnyddio'r broses ar-lein

19.5 Cyhoeddi fersiynau hawdd eu darllen o ddogfennau ymgynghori allweddol ac arolygon

20 Byddwn yn ystyried cymryd camau os bydd nodweddion ffisegol ein hadeiladau yn rhoi pobl anabl dan anfantais wrth gyrchu ein gwasanaethau.

21 Gallai'r canlynol fod ymhlith yr enghreifftiau o gamau gweithredu mewn perthynas â nodweddion ffisegol ein hadeiladau:

21.1 gwneud yn siŵr bod lleoliadau sy'n wynebu tuag allan yn hygyrch i bobl sydd ag amryw o amhariadau

21.2 newid lleoliad neu ystafell gyfarfod; er enghraifft os oes bwriad i gynnal gwrandawiad neu gyfarfod ar y llawr cyntaf, symud y lleoliad i'r

llawr gwaelod neu chwilio am leoliad mwy hygyrch

22 Dan y Ddeddf, mae gennym ‘ddyletswydd rhagweledol’ sy’n golygu bod rhaid i ni feddwl ymlaen llaw (ac yn barhaus) am yr hyn y gallai fod ei angen yn rhesymol ar bobl anabl sydd ag amryw o amhariadau wrth gyrchu ein gwasanaethau.

23 Mae’r ddyletswydd hon yn berthnasol hefyd i sefydliadau sydd yn darparu gwasanaethau ar ein rhan.

24 Fodd bynnag, os bydd unigolyn anabl, hyd yn oed gyda’r addasiad rhagweledol, yn parhau i fod dan anfantais wrth ddefnyddio’r gwasanaeth oherwydd eu hanabledd, byddwn yn ystyried addasiad pellach yn benodol ar gyfer yr unigolyn dan sylw.

25 Gallai’r canlynol fod yn enghraifft o addasiad rhagweledol ac addasiad pellach:

25.1 Rydym wedi lledu llwybrau cerdded a gostwng uchder cownteri derbynfeydd oherwydd ein bod yn rhagweld anghenion defnyddwyr cadeiriau olwyn. Fodd bynnag, mae’n bosib nad ydy unigolyn sydd yn defnyddio cadair olwyn yn gallu cyrraedd y gloch yn y brif fynedfa oherwydd bod eu symudedd yn gyfyngedig. Byddai’n addasiad rhesymol pellach ar gyfer y cwsmer dan sylw petai cydweithiwr yn cwrdd â nhw wrth y prif ddrws.

26 Rydym yn disgwyl i’n staff allu adnabod yr angen am addasiadau rhesymol a’u hwyluso ar gyfer pobl

anabl sydd yn defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn adlewyrchu hynny yn ein polisïau a chanllawiau.

27 Oherwydd nad oes diffiniad penodol o'r hyn sydd yn 'addasiad rhesymol', byddwn yn penderfynu fesul achos beth sydd yn rhesymol pan fyddwn yn ystyried ceisiadau. Wrth benderfynu a yw addasiad penodol yn rhesymol, byddwn fel rheol yn ystyried y ffactorau canlynol sydd yn seiliedig ar God Ymarfer Cyflogaeth Statudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (cliciwch y ddolen hon i weld y cod):

27.1 Effeithiolrwydd – pa mar dda y mae'r addasiad dan sylw yn dileu neu o leiaf yn lleihau'r anfantais? Mae'n annhebygol y byddwn yn gwneud addasiadau nad ydynt yn dileu'r anfantais.

27.2 Ymarferoldeb – pa mor ymarferol ydy'r addasiad, er enghraifft, faint o amser fydd ei angen i'w weithredu?

27.3 Cost – faint fydd yn ei gostio, gan ystyried ein hadnoddau ariannol a ph'un ai oes cymorth arall ar gael?

27.4 Amharu – i ba raddau fyddai gwneud yr addasiad hwn yn amharu ar y busnes, ar eraill ac ar ein rôl reoleiddiol?

27.5 Risg – a fyddai gwneud yr addasiad yn peri unrhyw risg i eraill?

28 Mae rhai pethau nad yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud addasiadau ar eu cyfer. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn eglur nad yw cymhwyso safonau galluogrwydd i unigolyn anabl yn

wahaniaethol (mae hynny'n cynnwys ein Cod, ein hailddilysu a'n safonau addysg). Fel rheoleiddiwr proffesiynol sydd yn gyfrifol am ddiogelu'r cyhoedd, ni fyddai'n iawn i ni addasu'r safonau hyn. Fodd bynnag, gallwn wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo nyrsys, bydwragedd a nyrsys cyswllt i fodloni ein safonau.

29 Rydym hefyd yn ystyried yr effaith ar bobl anabl, ac unrhyw addasiadau rhesymol  cysylltiedig, pan fyddwn yn adolygu neu'n newid ein prosesau. Er enghraifft, byddwn yn nodi camau gweithredu mewn asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

## Ei gwneud hi'n hawdd i bobl ofyn am addasiadau

30 I'n helpu ni i wneud unrhyw addasiadau mewn pryd i allu helpu, rydym yn annog pobl anabl i ofyn am unrhyw gefnogaeth mor gynnar â phosib drwy ddefnyddio'r opsiynau cysylltu ar gyfer y broses y maent yn ymwneud â hi. Rydym hefyd yn cynnwys nodiadau i atgoffa pobl yn ein deunyddiau a baratoir ar gyfer cwsmeriaid.

31 Mae pob addasiad rhesymol yn wahanol, felly mae'n anodd gosod ffrâm amser ar gyfer eu cyflawni. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn blaenoriaethu gweithredu er mwyn i bobl gael yr addasiadau rhesymol y mae eu hangen arnynt cyn gynted â phosib.

32 Rydym hefyd yn gofyn i bobl am addasiadau pan fyddwn yn rhyngweithio â nhw. Gallai hynny gynnwys pobl fydd yn cael eu cyfweld, nyrsys,

bydwragedd, nyrsys cyswllt a thystion sydd yn rhan o wahanol gamau yn ein prosesau.

## Rhannu gwybodaeth am anabledd

33 Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod yr addasiadau y mae eu hangen arnynt yn cael eu darparu i unigolion anabl, pa bynnag ran o'r NMC y maent yn rhyngweithio â hi. Pan fydd angen i staff yr NMC rannu gwybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr, ni fyddant yn datgelu gwybodaeth sensitif ynglŷn â iechyd neu anabledd. Byddant yn canolbwyntio ar yr addasiad sydd ei angen yn hytrach na diagnosis meddygol yr unigolyn. Er enghraifft, byddwn yn cofnodi y bydd angen egwyliau gorffwys rheolaidd ar unigolyn yn ystod gwrandawiad yn hytrach na chofnodi'r anabledd ei hun, oni bai bod yr anabledd yn uniongyrchol berthnasol.

34 Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth am addasiadau rhesymol, byddwn yn eglur ynglŷn â'r ffordd byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth honno.

## Pryderon neu gwynion

35 Os ydych chi eisiau mynegi pryder neu gŵyn ynglŷn â'r polisi hwn, cysylltwch â'n tîm Ymholiadau Cwsmeriaid a Chwynion. Llenwch ein ffurflen adborth neu gwynion ar-lein (cliciwch y ddolen hon i weld y ffurflen) neu ffoniwch ni ar 020 7681 5830.

## Adolygu'r polisi hwn

36 Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn ffurfiol ym mis Awst 2025. Fodd bynnag, byddwn yn cadw'r polisi yn destun adolygiad tan hynny, a byddwn yn croesawu eich adborth am ein hymagwedd.

Ein tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sydd yn gyfrifol am ddiweddaru ac adolygu'r polisi hwn. Ar gyfer adborth am y polisi, e-bostiwch equality@nmc-uk.org